



Nifer y busnesau a gofrestrwyd:

12,130



Nifer yr unigolion a gofrestrwyd:

25,293

EIP Cymru

46 O BROSIECTAU WEDI'U CYMERADWYO YN GWEITHIO gyda

232 O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR



Rhwydwaith Arddangos

Dolygarn: Dewisiadau porthiant amgen i wella cynhyrchiant a lleihau effeithiau amgylcheddol ar fferm yr ucheldir

Nod y prosiect ar safle arddangos Dolygarn yw ymchwilio i gnydau gaeaf amgen a'u cymharu â'r system gonfensiynol o dyfu cnydau bresych (maip sofr neu rwdins) er mwyn lleihau'r perygl o golli pridd a maetholion, lleihau'r effaith ar ansawdd dŵr a diogelu cynhyrchiant y fferm yn y dyfodol.

Dangosodd y treial hwnnw, a gynhaliwyd rhwng gwanwyn 2020 a haf 2021, fod tyfu cnwd o Clampsaver (cymysgedd o rêp a glaswellt) wedi galluogi James Powell, ffermwr y safle arddangos, i ddyblu ei incwm o werthiant yr wŷn – cynhyrchodd 7,843kg o wŷn ar 4.7ha, a werthodd am £16,845, o'i gymharu â 3,500kg o wŷn a oedd yn werth £7,500 o'r cae cnwd bresych.

Un o fanteision ychwanegol y Clampsaver oedd y ffaith bod 200 o wŷn benyw wedi gallu pori ar yr ailgyfiant – roedd gwerth hynny ar ei ben ei hun wedi mwy na thalu am y gwahaniaeth o £82/ha (£33/acer) rhwng cost hadau Clampsaver a Brassica Express; casglwyd 88 o fynau silwair hefyd.

Cafodd y cae ei ail-hau ym mis Mehefin, ar adeg o'r flwyddyn pan mae llai o berygl o ddŵr ffo. Mewn cymhariaeth, cafodd y cae lle'r oedd y cnwd bresych yn tyfu ei adael yn noeth rhwng mis Ionawr a mis Mai, pan fyddai'n cael ei ail-hau. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn y lluniau isod:

Brassica Express vs Clampsaver – 'run off catchments'



Clampsaver



Brassica Express



Mae'r canlyniadau o safbwynt economaidd a chynhyrchiant yn drawiadol iawn, ond mae'r cymysgedd o rêp a glaswellt (Clampsaver) yn dod â buddion amgylcheddol hefyd. Dangosodd asesiad o'r pridd ym mis Rhagfyr 2020 fod arwyneb y pridd yn y cae Clampsaver wedi'i amddiffyn a bod dwysedd y gwreiddiau yn gwarchod rhag cywasgiad. Ar y llaw arall, roedd y pridd yn y cae cnwd bresych wedi'i adael yn noeth ar ôl ei bori, felly roedd yn agored i erydiad ac roedd llai o ddwysedd gwreiddiau. Hefyd, roedd 50% yn fwy o bryfed genwair yn y pridd yn y cae Clampsaver nag yn y cae cnwd bresych.

Un rheol aur i leihau'r risgiau mewn caeau lle bydd cnydau bresych yn cael eu pori dros y gaeaf yw cadw'r gwreiddiau a'r blagur yn y ddaear i amddiffyn y pridd.

Pantyderi: Tyfu cnwd protein i wella hunangynhalieth wrth fwydo gwartheg biffg

Mae Fferm Arddangos Pantyderi yn pesgi 400 o wartheg biff bob blwyddyn ac mae wedi bod yn ceisio lleihau ei dibyniaeth ar borthiant sy'n cael ei brynu. Y ddogyn sylfaenol yw silwair glaswellt a barlys wedi'i grychu; yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r fferm wedi ceisio cynyddu lefel y protein yn y silwair o 10.5% i 16.5% drwy dorri silwair yn gynharach ac ar gam cynharach o ran ei dwf, a hynny o'r dolydd a gafodd eu hail-hau lle mae mwy o feillion yn y glastir.

Roedd y barlys wedi'i grychu yn cael ei drin â chadwolyn wrea; fodd bynnag, er gwaethaf y camau hyn, roedd dal angen cynnwys 1.0 - 1.5kg/y pen/y dydd o ddwysfwyd protein a brynwyd yn y dognau tyfu a phesgi biff i greu dognau cytbwys er mwyn sicrhau'r cyfraddau twf mwyaf.

Rhoddyd ystyriaeth ofalus i'r math o gnwd protein a fyddai'n gallu cael ei dyfu a'i gynaeafu ac a fyddai'n addas i system fferm Pantyderi; arweinodd hyn at sefydlu'r cae pys a ffa dau gnwd cyntaf yn y wlad. Mae'r cae 8ha o faint wedi cynhyrchu 42 tunnell o bys a ffa wedi'u crychu, sy'n cynnwys 26.5% o brotein ac 13.6 MJ/kg ME yn y deunydd sych. Ar ôl cyfrifo'r holl gostau ar gyfer tyfu, cynaeafu a chrychu'r cnwd, mae'r cynnyrch hwn wedi costio £161 y dunnell pwysau ffres i'w gynhyrchu.

Mae'r tabl yn dangos yr arbedion o ran costau yn sgil defnyddio cnwd a dyfwyd ar y fferm o'i gymharu â phrynu cymysgedd protein yn 2020.

	Dogn dyfu		Dogn besgi	
	2020	2021	2020	2021
Blwyddyn	2020	2021	2020	2021
Cost/y pen/y dydd £	1.35	1.29	2.39	2.18
Arbedion o ran costau gaeaf 2021 £	2,100		3,788	

Mae prisiau protein yn tueddu i fod yn ansefydlog iawn, ac ar hyn o bryd, maent yn llawer uwch nag yr oeddynt flwyddyn yn ôl, felly bydd tyfu'r cnwd protein yn helpu i sicrhau bod y system besgi biff ym Mhantyderi yn gadarn ac yn gwella cynaliadwyedd a chymwysterau amgylcheddol cynhyrchu biff Cymreig.



Ffigur 1. Pys a ffa wedi'u crychu

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth drwy gategorïau Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd **61** o unigolion gymorth drwy Gategorïau Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd **3** grŵp (mentrau ar y cyd) gyda chyfanswm o **17** o unigolion gymorth drwy Gategorïau Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ynglŷn â darpariaeth y gwasanaeth cyngori hwn:

"Defnyddiol iawn. Wedi helpu i ddeall y gwahanol agweddau ar newid cyfeiriad y busnes."

Cynllun Datblygu Personol

CRÛWYD **189** O GYNLLUNIAU DATBLYGU PERSONOL YN YSTOD Y CYFNOD HWN



Grwpiau trafod



Grŵp Llaeth y Drenewydd

Nod y cyfarfod oedd trafod a dadansoddi canlyniadau a gasglwyd gan arolwg Meincnodi Ariannol y Sector Llaeth. Roedd pob busnes wedi darparu data a oedd yn adlewyrchu perfformiad eu busnes a thrafodwyd hyn yng nghyfarfod y grŵp.

Agorwyd y cyfarfod gan Tom Downes o Whittingham a Riddel, a wnaeth ddiolch i'r busnesau a gymerodd ran, gan bwysleisio pa mor bwysig yw meincnodi i fusnesau.


Mae meincnodi yn dangos perfformiad y busnes ar y pryd, ynghyd â meysydd posibl i'w gwella drwy gymharu'r busnes ag eraill. Esboniwyd bod sawl ffactor posibl yn gallu dylanwadu ar elw busnesau llaeth, gan gynnwys:

- Gwerthiant llaeth – Pris, ansawdd, cynnyrch
- Bwydo – Maint y crynodiadau
- Porthiant – Ansawdd a maint
- Iechyd – Mastitis, cloffni, ac ati
- Ffrwythlondeb – Cyfraddau ffrwythloni a beichiogrwydd
- Difa – Gwerthoedd
- Adeiladau – amgylchedd, lle, cysur, ac ati
- Rheolaeth – busnes, gorbenion
- Yr unigolyn!

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl iawn lle cafodd busnesau gyfle i drafod gwahaniaethau o ran costau a meysydd i'w gwella yn eu busnesau ar sail y canlyniadau. Roedd y grŵp hefyd yn teimlo bod y sector llaeth yn perfformio i safon uchel, ac y byddent o bosibl yn hoffi canolbwyntio mwy ar gostau gorbenion. Bydd y grŵp yn awr yn cynnal gweithgareddau a fydd yn gallu dylanwadu ar gostau ac yn edrych ar feincnodi yn y maes hwn.

Cymhorthfeydd

CYNHALIWDYD 19 O GYMHORTHFEYDD gyda
133 O FYNICHWYR



Ffigur 3. Mynychwyr cymorthfeydd yn ôl prif sector y busnes

Adborth gan fuddiolwyr:

“Cafodd gwybodaeth werthfawr ei throsglwyddo i ni yn y cyfarfod. Roedd yr arbenigwr yn gallu awgrymu opsiynau posibl ar gyfer y prosiect.”

Gweminarau



3 O WEITHDAI BETH AM SIARAD BUSNES

Ydych chi am sicrhau bod eich busnes yn barod ar gyfer newidiadau yn y dyfodol?

Mae Beth am Siarad Busnes yn weminar ryngweithiol sy'n trafod y prif bwyntiau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer dyfodol eich busnes.

Mae'r gweminarau hyn yn cyflwyno gwybodaeth hollbwysig am gynllunio busnes a rheoli newid, pwysigrwydd dadansoddi cyflwr presennol y busnes a sut i ystyried cyfleoedd yn y dyfodol.

Mentor

773




DATGANIAD O DDIDDORDEB A GYFLWYNWYD ERS DECHRAU'R FENTER

292



O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL



E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

CYNLLUNIO A CHYLLID	TAW
FFERMIO CYFRANDDALIADAU CYDWEITHREDOL	ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Hyfforddiant

Cyrsiau	Nifer yr unigolion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod hwn
Cymorth cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng	32
Marchnata'ch Busnes	15
Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwy, Gweithgynhyrchu neu Adwerthul	11
Cynllunio a Datblygu Busnes	10
Cadw Cyfrifon	10

Rhaglen TGCh

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3
Cyfrifiaduron ar gyfer Dechreuwr = 99 o unigolion wedi'u hyfforddi	Tiwora un-i-un = 26 o unigolion wedi'u hyfforddi	Gweithdai = 47 o fynychwyr

Roedd themâu'r gweithdai'n cynnwys:

- Cyflwyniad i QuickBooks
- Gwneud Treth yn Ddigidol
- Band Eang 4G